



LEFEL 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

# Dilyniant mewn Adeiladu

<b>Cynnwys</b>	<b>Rhif y dudalen</b>
<b>Cyflwyniad</b>	2
<b>Diben</b>	2
<b>Strwythur y cymhwyster</b>	3
<b>Nodau ac amcanion y pwnc</b>	3
<b>Cynnwys y pwnc</b>	4
Maes Dysgu 1	5
Maes Dysgu 2	5
Maes Dysgu 3	5
Maes Dysgu 4	6
Maes Dysgu 5	6
<b>Cynllun asesu</b>	7
<b>Deilliannau</b>	9
<b>Gofynion rhesymeg</b>	9
<b>Gofynion gweithredol</b>	10
<b>Atodiad A – Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol</b>	11

## **Dilyniant mewn Adeiladu**

### **Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2). Mae'r rhain wedi cael eu datblygu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a'r deunyddiau asesu ar gyfer Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2).

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes adeiladu a gwasanaethau adeiladu i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2).

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres i un ffurf yn unig am gyfnod o saith mlynedd o 1 Medi 2021. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2018 a mis Mehefin 2019, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortium sy'n cynnwys City & Guilds London Institute ac EAL i ddatblygu a chyflwyno'r cymwysterau newydd.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol* y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gorff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd yn cael blaenoriaeth.

### **Diben**

Dyluniwyd y cymhwyster hwn i'w gyflwyno fel cymhwyster ôl-16. Dyluniwyd y cymhwyster i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy dysgwyr a'u gwybodaeth ehangach am grefft adeiladu gyda'r bwriad o gefnogi dilyniant i gymhwyster seiliedig ar gymhwysedd yn y grefft honno. Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio'n bennaf i ddysgwyr ddilyn rhaglen ddysgu blwyddyn yn llawn amser ar ôl cwblhau'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Lefel 2). Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ddewis arbenigedd crefft yn y sector adeiladu a dechrau

datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth sydd yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y grefft honno, ynghyd â dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae arfer yn y grefft hon wedi newid ac yn dal i newid dros amser.

### **Strwythur y cymhwyster**

1. Rhaid i'r fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) gynnig ardystiad cymhwyster o 540 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) i ddysgwyr a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Cyfanswm Amser Cymhwysu (TQT) a chredydau.
2. Rhaid i deitl y cymhwyster ar QiW fod fel a ganlyn:
  - 2.1. Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)
3. Rhaid i'r cymhwyster gynnwys y llwybrau crefft dewisol canlynol:
  - 3.1. gosod brics;
  - 3.2. gwaith coed pensaernïol;
  - 3.3. gwaith coed ar safle;
  - 3.4. codi fframiau pren;
  - 3.5. peintiwr;
  - 3.6. plastro soled;
  - 3.7. gosodwr llechi a theils ar doeon;
  - 3.8. leinio sych - gosod;
  - 3.9. gweithiwr daear; a
  - 3.10. theilio wal a llawr
4. Rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau bod y fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddewis un o'r llwybrau ym mharagraff 3.
5. Rhaid i deitl y cymhwyster gynnwys, fel ardystiad sy'n ymddangos ar dystysgrifau, y llwybr sydd wedi'i ddilyn (gweler paragraff 3).

### **Nodau ac amcanion y pwnc**

6. Rhaid i'r manylebau Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) alluogi dysgwyr i ddatblygu eu:

- 6.1. dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel sy'n briodol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
- 6.2. dealltwriaeth o agweddau ar gyflogaeth a chyflogadwyedd yn y sector adeiladu;
- 6.3. sgiliau cyflogadwyedd a'u dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r rhain yn berthnasol i ymarfer cyfoes mewn crefft adeiladu ddewisol;
- 6.4. gwybodaeth am y gofynion iechyd a diogelwch wrth weithio ar safleoedd, gyda chyfarpar a gydag eraill wrth weithio mewn crefft peirianeg adeiladu ddewisol, a'u gallu i'w rhoi ar waith;
- 6.5. dealltwriaeth o'r mathau o waith a phrosiectau a gynhelir mewn crefft adeiladu ddewisol, a rhyng-ddibyniaethau'r gwaith hwn ar waith gan grefftwyr eraill, ar y camau cynllunio, gosod, defnyddio a chynnal a chadw;
- 6.6. dealltwriaeth o'r offer, technegau, deunyddiau a thechnolegau a ddefnyddir mewn crefft adeiladu ddewisol ac o sut y maent yn newid, ac wedi newid, dros amser;
- 6.7. gwybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol mewn llwybr crefft dewisol fel y nodir yn y ddogfen hon, fel y nodir yn y safonau cenedlaethol perthnasol;
- 6.8. sgiliau ymarferol wrth gwblhau ystod eang o dasgau mewn crefft adeiladu ddewisol;
- 6.9. gallu i gynllunio a gwerthuso eu perfformiad yn effeithiol wrth gwblhau ystod eang o dasgau mewn crefft adeiladu ddewisol.

## **Cynnwys y pwnc**

7. Rhaid i gynnwys manyleb Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.
8. Rhaid i'r fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) gwmpasu'r holl gynnwys fel yr amlinellir ym Meysydd Dysgu 1-5 yn ogystal â defnyddio safonau galwedigaethol o Atodiad A. Rhaid datblygu pob Maes Dysgu mewn perthynas â'r grefft ddewisol a rhaid i Feysydd Dysgu 1, 2 a 3 (paragraff 11.3) fod â ffocws ehangach.

**Maes Dysgu 1:** Cyflogaeth yn y Sector Adeiladu

**Maes Dysgu 2:** Cyflogadwyaeth yn y Sector Adeiladu

**Maes Dysgu 3:** Arferion Newidiol Dros Amser

**Maes Dysgu 4:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Grefft Adeiladu

**Maes Dysgu 5:** Perfformio Crefft Adeiladu

### **Maes Dysgu 1 – Cyflogaeth yn y Sector Adeiladu**

9. Rhaid i fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o:
- 9.1. cyrff crefft, sefydliadau a chofrestriadau; a
  - 9.2. hunangyflogaeth yn y sector adeiladu.

*D.S.: Dylid datblygu'r Maes Dysgu hwn mewn ffordd gyffredinol ac mewn perthynas â'r grefft a ddewiswyd i'w hastudio gan y dysgwr.*

### **Maes Dysgu 2 – Cyflogadwyaeth yn y Sector Adeiladu**

10. Rhaid i fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu sicrhau bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau mewn:
- 10.1. cyfrifo costau a gofynion adnoddau yn y sector adeiladu
  - 10.2. sgiliau rhyngpersonol a mewnbersonol, a
  - 10.3. datrys problemau.

*D.S.: Dylid datblygu'r Maes Dysgu hwn mewn ffordd gyffredinol ac mewn perthynas â'r grefft a ddewiswyd i'w hastudio gan y dysgwr.*

### **Maes Dysgu 3 – Arferion Newidiol Dros Amser**

11. Rhaid i fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o, a sgiliau mewn:
- 11.1. y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig sy'n newid;
  - 11.2. deunyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddir mewn perthynas â'r grefft ddewisol;
  - 11.3. y rhyng-ddibyniaethau ar ymarfer rhwng gwahanol grefftau; a
  - 11.4. y grefft ddewisol a'r amgylchedd.

*D.S.: Dylai'r uned hon gael ei datblygu ar gyfer addysgu mewn perthynas â'r grefft a ddewiswyd i'w hastudio gan y dysgwr, ac eithrio 11.3, a ddylai ganolbwyntio ar y sector yn ehangach.*

## **Maes Dysgu 4 – Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Grefft Adeiladu**

12. Rhaid i'r fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu eu **gwybodaeth a'u dealltwriaeth** o arfer yn y maes crefft a ddewiswyd i'w astudio.
13. Rhaid i'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ystod o ofynion y safonau cenedlaethol perthnasol fel sy'n briodol i'r oriau dysgu dan arweiniad (gweler Atodiad A).

## **Maes Dysgu 5 – Perfformio Crefft Adeilad**

14. Mewn perthynas â'r grefft a ddewiswyd i'w hastudio, ym Maes Dysgu 5 rhaid i'r fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio eu **gwybodaeth a'u dealltwriaeth** o:
  - 14.1.yr egwyddorion sy'n llywio'r gwaith ymarfer;
  - 14.2.y derminoleg crefft-benodol;
  - 14.3.y gofynion ar gyfer perfformio ystod eang o dasgau, gan gynnwys yn y camau adeiladu a chynnal a chadw;
  - 14.4.sut i ddarllen a dehongli cynlluniau a dogfennaeth sy'n ofynnol wrth berfformio ystod eang o dasgau;
  - 14.5.egwyddorion technolegau BIM ar wahanol gamau mewn ystod o dasgau; a
  - 14.6.sut i werthuso perfformiad wrth gwblhau ystod eang o dasgau mewn perthynas â'r gofynion a bennwyd a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.
15. Mewn perthynas â'r grefft a ddewiswyd i'w hastudio, ym Maes Dysgu 5 rhaid i'r fanyleb Dilyniant mewn Adeiladu ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu eu **sgiliau** mewn:
  - 15.1.cynnal ystod eang o dasgau yn y maes crefft hwn;
  - 15.2.perfformio ystod eang o dasgau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill;
  - 15.3.darllen a dehongli cynlluniau a dogfennaeth sy'n ofynnol wrth berfformio ystod eang o dasgau yn y maes crefft hwn;
  - 15.4.cynllunio'r gwaith o gwblhau ystod eang o dasgau yn y maes crefft hwn, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol i wneud hynny;
  - 15.5.defnyddio egwyddorion technolegau BIM ar wahanol gamau mewn ystod o dasgau;
  - 15.6.gosod meini prawf perfformiad ar gyfer cwblhau ystod eang o dasgau yn y maes crefft hwn; a

15.7.gwerthuso perfformiad eu gwaith wrth gwblhau ystod eang o dasgau yn y maes crefft hwn mewn perthynas â'r gofynion a bennwyd a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

## Cynllun asesu

16. Rhaid ymdrin â holl gynnwys y pwnc yn yr asesiad dros oes y fanyleb.

17. Asesir y cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) trwy asesiad mewnol ac allanol fel yr amlinellir isod:

<b>Asesiad 1<sup>1</sup></b>	Asesiad ar sgrin
<b>Diben</b>	
Rhaid i'r asesiad ar y sgrin asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o'r cynnwys o feysydd dysgu 1, 3 a 4.	
<b>Gofynion</b>	
Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n allanol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol a'i gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu. Rhaid cynnal yr asesiad heb fynediad at ddeunydd cyfeirio; rhaid iddo gynnwys ystod o eitemau wedi'u marcio'n awtomatig; rhaid iddo gynnwys gwelliannau sy'n cynnwys deunydd gweledol â delweddau llonydd neu ddelweddau symudol; rhaid iddo gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.	

<b>Asesiad 2</b>	Prosiect ymarferol
<b>Diben</b>	
Rhaid i'r prosiect ymarferol asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o feysydd dysgu 2-5.	
<b>Gofynion</b>	
Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag un prosiect ymarferol neu fwy, sef cyfanswm o tua 60 o oriau dysgu dan arweiniad, mewn lleoliad a efelychwyd, y llunnir deilliannau pendant ohonynt. Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gynllunio'r prosiect, perfformio'r elfennau ymarferol a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt wrth gyflawni'r prosiect ac ansawdd eu deilliannau.	

<sup>1</sup> Rhaid i asesiad 1 ar gyfer pob crefft fod yn union yr un fath ag asesiad 1a yn y cymhwyster Adeiladu (Lefel 3).



Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n fewnol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol; rhaid ei gwblhau mewn ymateb i frîff a osodwyd gan y corff dyfarnu; rhaid iddo gyfrif am 60% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

**Asesiad 3** Trafodaeth dan arweiniad

**Diben**

Rhaid i'r drafodaeth asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o elfennau o feysydd dysgu 1-5.

Rhaid i'r drafodaeth ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fyfyrion ar gwblhau eu prosiect ymarferol, effaith eu harfer ar yr amgylchedd, ei berthynas ag ymarfer mewn crefftau eraill a'i natur newidiol.

**Gofynion**

Rhaid i'r asesiad gael ei asesu'n fewnol a rhaid sicrhau ei ansawdd yn allanol; rhaid iddo fod o hyd penodol a fydd yn cael ei amlinellu gan y corff dyfarnu a'i gymryd o dan amodau a amlinellir gan y corff dyfarnu; rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i'r asesydd ofyn ystod o gwestiynau strwythuredig a ddatblygwyd trwy arweiniad gan y corff dyfarnu; rhaid iddo gyfrif am 20% wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

18. Bydd galw cymharol i'r asesiadau ar gyfer pob dysgwr, waeth beth yw'r llwybr crefft a ddilynir.
19. Rhaid defnyddio cymysgedd o fathau o gwestiynau ar draws asesiadau 1 a 3.
20. Rhaid i gynlluniau marcio asesu nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â chynnwys y pwnc.
21. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau mewn perthynas ag ail-sefyll ac ail-gyflwyno.

**GRh - Gofyniad rhesymeg:** wrth gyflwyno'r fanyleb, bydd yn ofynnol i gyrff dyfarnu esbonio'r ffyrdd y mae eu dull o asesu yn cydbwyso ystyriaethau hydrinedd, ymgysylltu, dibynadwyedd a dilysrwydd. Rhaid i'r manylebau sicrhau:

- mae'r trefniadau asesu, ar wahân ac yn gyffredinol, yn hylaw ar gyfer canolfannau a dysgwyr;

- *mae'r trefniadau asesu, yn gyffredinol, yn ddigon deniadol i ddysgwyr ac yn hyrwyddo diddordeb dysgwyr yn y maes pwnc;*
- *bydd y trefniadau asesu yn sicrhau dibynadwyedd deilliannau asesu, ar lefel canolfan a chenedlaethol a thros amser;*
- *mae'r trefniadau asesu yn fath ddilys o asesiad ar gyfer y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu.*

## **Deilliannau**

22. Rhaid i'r fanyleb ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fodloni sgôr trothwy ym mhob asesiad i gael eu hardystio.
23. Rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus gael eu graddio a'u hardystio gyda naill ai Llwyddo, Teilyngdod neu Rhagoriaeth.

## **Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo**

24. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftio ar gyfer pob uned/cydran, a dogfen esboniadol (dogfen resymeg) yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster arfaethedig.

## **Gofynion rhesymeg**

25. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.
26. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

- 26.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;
- 26.2. y dull o ymdrin â chynnwys dros amser ar gyfer asesiadau mewnlol ac allanol (gan gynnwys manyleb y prawf asesu allanol);
- 26.3. y dull o ymdrin â strwythur asesu, gan gynnwys nifer, pwysoliad, dyraniad marciau a hyd unedau/cydrannau asesu;
- 26.4. dyluniad a chymhwysiad cynlluniau marcio a/neu feini prawf;
- 26.5. sut y bydd yr asesiad allanol yn cael ei ddarparu ar sail galw;
- 26.6. y dull o ddatblygu ac adnewyddu asesiadau dros amser;

- 26.7. sut mae'r amodau a osodwyd ar gyfer yr asesiadau yn arwain at ganlyniadau dibynadwy ac yn briodol ar gyfer pob lleoliad;
- 26.8. y prosesau a ddefnyddir i osod a chynnal safonau yn yr asesiadau;
- 26.9. y broses ddylunio a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y trothwyon arfaethedig ar gyfer pob un o'r asesiadau a'r ffiniau arfaethedig ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol;
- 26.10. y dull o ail-sefyll ac ailgyflwyno (ar lefel cydran a chymhwyster), gan gynnwys sut y bydd amseriad cyhoeddi canlyniadau a chyhoeddi briffiau prosiect blynyddol yn effeithio ar ail-sefyll ac ailgyflwyno;
- 26.11. ei strategaeth ar gyfer sicrhau ansawdd asesiadau mewnol;
- 26.12. ei ddull o ddylunio, monitro a chynnal profion ar y sgrin;
- 26.13. dull o agregu, graddio a gwahaniaethu; a
- 26.14. ei ddull o ddefnyddio'r safonau galwedigaethol perthnasol.

### **Gofynion gweithredol**

- 27. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer yr aseswyr, swyddogion sicrhau ansawdd mewnol a swyddogion sicrhau ansawdd allanol.
- 28. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:
  - 28.1. cofrestriadau
  - 28.2. sicrhau ansawdd
  - 28.3. prosesau asesu.

## Atodiad A – Safonau Galwedigaethol

### Cynnwys

<b>Llwybr Crefft</b>	<b>Rhif y Dudalen</b>
Gosod Brics	12
Gwaith saer pensaernïol	13
Gwaith coed ar safle	14
Codi fframiau pren	15
Peintiwyr	16
Plastro soled	17
Gosodwr llechi a theils ar doeon	18
Leinio sych - gosod	19
Gweithiwr daear.	20
Teilio wal a llawr	21

Wrth ddatblygu'r cynnwys ar gyfer pob llwybr crefft, rhaid i'r corff dyfarnu roi sylw dyledus i'r safonau galwedigaethol a amlinellir yn yr atodiad hwn. Er nad yw'n ofynnol i'r fanyleb gynnwys yr holl safonau galwedigaethol ar gyfer pob llwybr crefft, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu gwybodaeth o'r canlynol wrth geisio cymeradwyaeth:

- y dull o ymdrin â'r ystod o safonau galwedigaethol a gwmpesir gan gynnwys sut y gellir cymharu pob llwybr crefft; a
- y berthynas mewn cynnwys rhwng y llwybr crefft yn y cymhwyster hwn a dilyniant i'r un grefft/crefft debyg yn y cymhwyster Adeiladu (Lefel 3), yn enwedig o ran yr asesiad ar y sgrin a rennir (gweler tudalen 8, asesiad 1).

## **Gosod Brics**

COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau
COSVR40	Gosod strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau
COSVR41	Gosod strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau allan
VR50v3	Gosod a chywasgu concrit

### **Gwaith saer pensaernïol**

COSVR14	Llunio gwybodaeth ar gyfer gosod cynhyrchion arferol allan
COSVR15	Marcio cynhyrchion arferol allan o wybodaeth gosod allan
COSVR16	Gweithgynhyrchu cynhyrchion arferol
COSVR628	Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

### **Gwaith coed ar safle**

COSVR09	Gosod cydrannau'r gosodiad cyntaf
COSVR10	Gosod cydrannau'r ail osodiad
COSVR11	Gosod cydrannau adeiladwaith sgerbwd
COSVR12	Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol
COSVR628	Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy
COSVR641v	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

### **Codi fframiau pren**

COSVR289v	Gosod waliau a lloriau pren
COSVR290	Gosod strwythurau to pren
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau



## **Peintwr**

COSVR250	Gosod a datgysylltu platfformau mynediad/gweithio
COSVR332	Paratoi arwynebau i'w paentio a/neu eu haddurno
COSVR333	Cotio arwynebau drwy ddefnyddio brwshys a rholeri
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

## **Plastro soled**

COSVR65	Rhoi plastr terfynol ar arwynebau wedi'u paratoi
COSVR66	Cynhyrchu gorffeniadau plastro caled mewnol
COSVR67	Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndirol a chynhyrchu gorffeniadau
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

### **Gosodwr llechi a theils ar doeon**

COSVR250	Gosod a datgysylltu platfformau mynediad/gweithio
COSVR252	Defnyddio systemau diogelu rhag cwmpo a ddarperir
COSVR272	Gosod haen waelodol, estyll a chhydrannau toi
COSVR273	Gosod lapiadau plwm hindreulio wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar doeau
COSVR274	Gosod teils to lap-sengl i fesur amrywiadwy
COSVR275	Gosod gorchuddion to â theils plaen
COSVR276	Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd i fanylion safonol y to
COSVR360	Gosod, cynnal a symud offer amddiffyn a diogelwch ardal waith
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

### **Leinio sych - gosod**

COSVR129	Gosod systemau leinio sych
COSVR130	Gosod leininau plastrfwrdd
COSVR641	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
COSVR642	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
COSVR643	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

## **Gweithiwr daear**

COSVR370	Gosod, cynnal a dileu cynhaliaeth cloddio dros dro
COSVR400	Defnyddio offer, unedau pŵer neu gyfarpar, peiriannau neu offer cyffredin
COSVR401	Sefydlu dulliau rheoli ar gyfer gwaith dimensiynol eilaidd
VR641v2	Cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
VR642v1	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
VR643v1	Symud, defnyddio neu storio adnoddau

## **Teilio wal a llawr**

- COSVR641 Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle
- COSVR642 Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol
- COSVR643 Symud, trin neu storio adnoddau
- COSVR141 Paratoi cefndiroedd ar gyfer teilio
- COSVR142 Arwynebau waliau a lloriau teils
- COSVR69 Gosod sgridau tywod a sment